Inspection of Youth Offending Work
Arolygiad o Waith Troseddu Ieuenctid

**HM Inspectorate of Probation**
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX
0161 240 5336 - www.justice.gsi.gov.uk/about/hmi-probation

HM Inspectorate of Probation
Arolygiaeth Prawf EM

| | |
|---|---|
| *I:* | Phil Evans, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Lleol Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Bro Morgannwg |
| *Copi i:* | Gweler rhestr ar y diwedd |
| *Gan:* | Julie Fox, Prif Arolygydd Cynorthwyol |
| *Dyddiad cyhoeddi:* | 29 Ionawr 2014 |

**Adroddiad ar Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) gwaith troseddu ieuenctid ym Mro Morgannwg**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r arolygiad SQS diweddar, a gynhaliwyd yn ystod 9-11 Rhagfyr 2013. Fe wnaethom gynnal hwn fel rhan o'n rhaglen o arolygu gwaith troseddu ieuenctid. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Darperir copi i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB).

## Cyd-destun

Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r rhai sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau rydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Mae asesu a chynllunio o ansawdd da ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Diben yr arolygiad hwn oedd asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith achos diweddar gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom archwilio 14 o achosion a oruchwyliwyd gan Wasanaeth Troseddu Ieuenctid Bro Morgannwg. Lle bynnag y bo'n bosibl, gwnaed hyn ar y cyd â'r rheolwr achos a ddyrannwyd, a thrwy hynny fe gynyddwyd yr effeithiolrwydd fel cyfle dysgu i staff.

Casglwn dystiolaeth yn erbyn meini prawf SQS, sydd ar gael oddi ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi - http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation.

## Crynodeb

Yn gyffredinol, canfuom ddarlun cadarnhaol iawn yng Ngwasanaeth Troseddu Ieuenctid Bro Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn haeddu cael bod yn falch o'r cynnydd sylweddol mae wedi'i wneud ers ein harolygiad blaenorol yn 2010. Roedd yr arolygiad hwnnw wedi canfod yr angen am welliannau mewn sawl maes pwysig. Roeddem yn falch o nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ansawdd yr asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau a wnaed gan ymarferwyr. Roedd staff wedi'u hymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn cael digon o gefnogaeth yn eu gwaith. Roeddent yn ymgysylltu ag ystod addas o bartneriaid ac yn gyffredinol, roedd y plant a'r bobl ifanc yn cael gwasanaeth da drwy'r adroddiadau, asesiadau a chynlluniau o ansawdd da a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid. Roedd cwmpas i wella ansawdd yr ymarfer ymhellach drwy sicrhau bod materion amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn asesiadau a chynlluniau.

**Sylwadau ar yr arolygiad ym Mro Morgannwg:**

## 1. Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu

1.1. Yn y naw achos perthnasol, gwelsom fod adroddiadau cyn dedfrydu o ansawdd da wedi'u darparu i'r llysoedd a bod goruchwyliaeth rheolwyr o ansawdd yr adroddiadau wedi bod yn effeithiol. Dywedodd arolygydd mewn un Adroddiad Cyn Dedfrydu: "*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r materion sy'n sail i droseddu'r person ifanc ac roedd yna gynnig a oedd yn nodi difrifoldeb y drosedd ac yn darparu ymyriadau adeiladol gyda'r nod o fynd i'r afael â ffactorau sy'n ymwneud â throseddu. Roedd yr adroddiad wedi ystyried ystod eang o ffynonellau gwybodaeth, er enghraifft, roedd y wybodaeth gan y gweithiwr cymdeithasol yn hanfodol i hysbysu'r Adroddiad Cyn Dedfrydu. Roedd ansawdd y gwaith ar y cyd yn golygu bod y llys yn rhoi cynnig credadwy ar gyfer cosb gymunedol*".

1.2. Roedd pob un ond un o'r asesiadau cychwynnol a oedd yn edrych ar yr hyn oedd yn debygol o wneud i blentyn neu berson ifanc droseddu wedi ei wneud ar amser ac o ansawdd digon da. Er bod hyn yn agwedd ar ymarfer a oedd yn gyffredinol gryf yn y tîm, roedd lle i wella ymhellach drwy gynyddu llif y wybodaeth, mewn achosion perthnasol, rhwng y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid a'r heddlu. Fe wnaethom nodi nifer o achosion lle byddai cyfnewid gwybodaeth o'r math hwn wedi bod yn ddefnyddiol o ran cadarnhau neu leddfu pryderon am droseddu posibl gan blant a phobl ifanc.

1.3. Gall amgylchiadau teulu ac amgylchiadau personol llawer o blant a phobl ifanc newid yn gyflym. O ganlyniad, mae angen adolygu asesiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â sefyllfaoedd sy'n newid. Roedd pob un ond un o'r asesiadau y buom yn edrych arnynt, ac a ddylai fod wedi'u hadolygu, wedi'u cwblhau ac yn ddigon da.

1.4. Yn dilyn yr asesiad, rydym yn disgwyl gweld cynllun gwaith er mwyn helpu i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd bron pob un o'r cynlluniau cychwynnol o safon ddigonol ac roedd naw o bob deg cynllun wedi parhau i gael eu hadolygu'n ddigonol. Mewn un achos, fe nodwyd gennym: "*Defnyddiodd y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid y pecyn 'Positive Choicesl' i fynd i'r afael â materion ymddygiad troseddol ar sail unigol a 'Clued Up' i wneud y gwaith hwn mewn grwpiau. Yn yr achos hwn, cymerodd James*[1] *ran mewn cwrs grŵp am wyth wythnos i fynd i'r afael â rheoli ei ddicter. Aeth i bob un o'r wyth sesiwn ac fe gyfranogodd yn dda. Ni fu unrhyw enghreifftiau pellach o faterion dicter ers iddo gwblhau'r pecyn hwnnw ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adolygiadau'r achos".* Lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc yn cyflawni dedfryd o garchar, fe wnaethom ganfod fod y cynllunio yn ystod cyfnod carcharol y ddedfryd yn mynd i'r afael â'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ym mhob un o'r pedwar achos perthnasol.

## 2. Amddiffyn y cyhoedd

2.1. Gwelwyd asesiad risg o niwed i eraill o ansawdd da mewn 13 o'r 14 o achosion a adolygwyd gennym, gan gynnwys pob un o'r naw lle cafwyd Adroddiad Cyn Dedfrydu. Mewn un achos, roeddem yn teimlo bod y dosbarthiad risg o niwed yn rhy isel ac nad oedd problemau dioddefwyr posibl wedi'u hystyried ddigon.

2.2. Lle gall y plentyn neu berson ifanc beri risg o niwed i eraill, rydym yn disgwyl gweld cynllun i leihau'r tebygolrwydd i hyn ddigwydd. Mewn naw o'r deg achos perthnasol, cynlluniwyd yn ddigon da i reoli'r risg o niwed. O fewn hyn, roedd cynllunio yn foddhaol mewn dau allan o'r tri achos carcharol. Yn yr achos carcharol nad oedd â digon o

[1] I helpu i ddiogelu manylion adnabod y person ifanc, mae'r enw wedi'i newid.

gynllunio i fynd i'r afael â materion risg o niwed, fe wnaethom ganfod nad oedd y cynllun gwaith yn adlewyrchu'r problemau a aseswyd yn yr achos yn llawn.

2.3. Mewn chwech o'r saith achos perthnasol, roedd cynlluniau i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill wedi'i adolygu i safon foddhaol. Ar gyfer un, nid oedd yr adolygiad wedi bod yn amserol ac nid oedd o ansawdd digonol ychwaith.

2.4. Lle'r oedd dioddefwr amlwg neu ddioddefwr posibl, roeddem yn falch o weld bod y risg o niwed a oedd yn eu hwynebu wedi cael ei rheoli'n effeithiol ym mhob achos. Nododd arolygydd un achos fel enghraifft; "*Roedd Darren*[2] *wedi ei ganfod yn euog o drosedd rhywiol yn cynnwys person ifanc arall. Fel rhan o'i adferiad parhaus a datblygiad cymdeithasol, nodwyd addysg fel maes allweddol o angen. Daethpwyd o hyd i gwrs priodol mewn coleg lleol ond roedd rhai materion rheoli risg yn y lleoliad hwnnw. Gweithiodd y rheolwr achos yn agos gydag awdurdodau'r coleg a rhoddodd asesiad risg cynhwysfawr a chynllun rheoli manwl iddynt. Roedd hwn yn amlygu pryderon perthnasol a phenodol o amgylch risgiau i eraill yn ogystal â phryderon am Darren a'i fod yn agored i niwed. Roedd hefyd yn cynnig awgrymiadau ymarferol ar gyfer rheoli'r problemau hynny. Roedd y dull hwn yn rhoi tawelwch meddwl i'r coleg bod modd rheoli'r risgiau gyda'r gefnogaeth a'r rheolaethau cywir ac fe wnaethant dderbyn Darren ar y cwrs"*.

2.5. Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o waith risg o niwed wedi bod yn effeithiol ym mron pob un o'r achosion perthnasol.

## 3. Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc

3.1. Ym mhob un ond 1 o'r 14 achos, roedd anghenion diogelu a bod yn agored i niwed wedi'u hasesu'n ddigonol. Aethpwyd i'r afael â'r problemau hyn yn llawn ym mhob un o'r naw Adroddiad Cyn Dedfrydu.

3.2. Roedd y mwyafrif helaeth o adolygiadau diogelu a bod yn agored i niwed drwy gydol y ddedfryd o safon dderbyniol.

3.3. Mewn 13 allan o'r 14 achos, roedd cynllunio gwaith i reoli a lleihau bod yn agored i niwed o safon dda. Roedd yr un achos nad oedd yn ddigonol gydag ymateb wedi'i gynllunio nad oedd yn ddigon clir ac nid oedd y cynllun wedi cynnwys safbwyntiau gweithiwr cymdeithasol y person ifanc.

3.4. Mewn 9 allan o'r 11 achos perthnasol, gwelsom adolygiadau digonol, drwy gydol y ddedfryd, i fynd i'r afael ag anghenion diogelu a bod yn agored i niwed.

3.5. Roedd tystiolaeth bod goruchwyliaeth gan reolwyr yn y rhan fwyaf o achosion. Mewn 11 allan o 13 achos perthnasol, roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd y gwaith i fynd i'r afael â diogelu a bod yn agored i niwed.

## 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

4.1. Roedd y mwyafrif helaeth o asesiadau ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltiad yn ddigonol. Rhoddwyd sylw priodol i'r materion hyn ym mhob un o'r Adroddiadau Cyn Dedfrydu.

4.2. Roedd y plentyn neu'r person ifanc neu riant/gofalwr wedi'u cynnwys ym mharatoad pob Adroddiad Cyn Dedfrydu. Canfuom hefyd fod ymgysylltiad da gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'r rhieni/gofalwyr i gynnal asesiadau a chynlluniau pellach. Er i ni weld bod sylw'n cael ei roi yn y rhan fwyaf o gynlluniau i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i

[2] I helpu i ddiogelu manylion adnabod y person ifanc, mae'r enw wedi'i newid.

ymgysylltu, nid oedd hyn bob amser yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn perthynas ag oedran ac aeddfedrwydd, hil ac ethnigrwydd, ac ar gyfer merched a genethod ifanc.

4.3. Ym mhob un ond 1 o'r 13 achos perthnasol a adolygwyd gennym, rhoddwyd digon o sylw i iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc.

4.4. Roedd lefelau cysylltiad â'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael eu goruchwylio â chydbwysedd da rhwng hyrwyddo cydymffurfiaeth gydag ymyriadau a oedd yn cefnogi newid cadarnhaol i'r unigolyn, er enghraifft mewnbwn addysgol, a gosod ffiniau o amgylch eu hymddygiad, er enghraifft, cyrffyw.

4.5. Roedd pump o blant a phobl ifanc wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion eu dedfryd. Roedd pump angen gwaith gan y rheolwr achos i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion goruchwyliaeth. Ym mhob achos lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydweithio, roedd ymateb y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn briodol. Arweiniodd hyn at y plentyn neu'r person ifanc yn ailafael â'r gwaith, neu, mewn tri achos, yn dychwelyd i'r llys oherwydd achosion o dorri amodau. Nododd un arolygydd: "*Roedd yr achos hwn yn cynnig enghraifft arall o ddull cadarn o reoli person ifanc di-drefn, nad oedd eto wedi ymgysylltu'n effeithiol â'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid a'i bartneriaid dros nifer o flynyddoedd, ac oedd ar fin symud i fyd oedolion. Roedd y trefniadau 'trosglwyddo' a oedd ar waith rhwng y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid, y gwasanaeth prawf a'r heddlu yn gadarn, ac yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc a fyddai'n cael eu goruchwylio yn y cyd-destun oedolion wedi eu paratoi'n briodol ar gyfer trosglwyddo ac yn deall y disgwyliadau gwahanol o oruchwyliaeth ym myd oedolion*" .

## Rheoli gweithredol

Canfuom fod Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Bro Morgannwg wedi ymateb i'r arolygiad blaenorol drwy weithredu ystod o fesurau sy'n anelu at wella ansawdd eu gwaith. Roedd rheolaeth effeithiol o weithgarwch gwella yn cynnwys sefydlu proses sicrhau ansawdd i fod yn sail i arfer da mewn ysgrifennu adroddiadau a fforwm cynllunio achosion i strwythuro'r gwaith mewn achosion cymhleth. Gwelsom enghreifftiau o'r ddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd ymarferwyr wedi croesawu hyn a datblygiadau eraill i gefnogi ymarfer ac wedi'u cynnwys yn eu gwaith.

Roedd rheolwyr achos yn gwerthfawrogi'r trefniadau ar gyfer darparu goruchwyliaeth rheolwyr ymarfer. Roedd hyn yn nodedig, o gofio bod y Tîm Rheoli wedi cynnal swydd wag allweddol am gyfnod sylweddol o amser. Roedd bron pob un o'r ymarferwyr wedi disgrifio cydlofnodi a goruchwyliaeth rheolwyr o'r risg o niwed a gwaith diogelu fel proses effeithiol. Fe wnaethom ystyried bod trefniadau goruchwylio staff a sicrhau ansawdd wedi cael effaith gadarnhaol ar bron pob un o'r achosion a arolygwyd. Yn gyffredinol, dywedodd staff eu bod yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol a bod gan eu rheolwr llinell y sgiliau a'r wybodaeth i'w helpu i wella ansawdd eu gwaith ac i'w cefnogi yn briodol.

Dywedodd y rhan fwyaf o staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant diweddar i'w galluogi i wneud eu swydd bresennol, ond dywedodd nifer nad oeddent wedi cael digon o hyfforddiant wrth fynd i'r afael â materion amrywiaeth, gan gynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fe wnaethom ganfod bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau lleol a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth, bod yn agored i niwed a risg o niwed a sut roedd egwyddorion ymarfer effeithiol yn berthnasol gyda'u gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

## Cryfderau allweddol

- Ansawdd yr Adroddiadau Cyn Dedfrydu a baratowyd ar gyfer y llysoedd.
- Cyfranogiad y plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr mewn asesiadau.
- Roedd y risg o niwed a phroblemau bod yn agored i niwed yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y mwyafrif o achosion.

- Rhoddwyd sylw clir i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth a materion nad ydynt yn ymwneud ag ymgysylltu.

**Maes sydd angen ei wella**

- Cynnwys materion amrywiaeth mewn asesiadau a chynlluniau.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniasom gan staff yn y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid i hwyluso ac ymgysylltu â'r arolygiad hwn. Mynegwch ein diolch, a sicrhewch eu bod yn gwbl ymwybodol o'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol sef Joseph Simpson. Gellir cysylltu ag ef ar 07917 084764 neu drwy e-bost ar joe.simpson@hmiprobation.gsi.gov.uk.

Copi i:

| | |
|---|---|
| Rheolwr y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid | *Paula Barnett* |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol | *Sian Davies* |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant | *Phil Evans* |
| Aelod Arweiniol Etholedig Gwasanaethau Plant | *Cyng Christopher Elmore* |
| Aelod Arweiniol Etholedig Troseddau | *Cyng Bronwen Brooks* |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru | *Alun Michael* |
| Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Lleol | *Ruth Walker* |
| Cadeirydd Mainc Llys Ieuenctid | *Angela Allport* |
| Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru | *Dusty Kennedy* |
| Pennaeth Goruchwylio a Chefnogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru | *Phillip Davies* |
| Staff cyswllt y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | *Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris* |
| Estyn | *Rachael Bubalo, Linda Howells* |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | *Nigel Brown, Bobbie Jones* |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | *Robin Bradfield* |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | *Paul Eveleigh, Rob Bowles* |

Nodyn: i gael argraffiad o'r adroddiad hwn, cysylltwch â Chyhoeddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi publications@hmiprobation.gsi.gov.uk, 0161 240 5336.